# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Chwefror 2022

Amser: 13.30 - 16.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12609

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Alun Davies AS<br>Peter Fox AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Claire Fiddes (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle<br>Aled Evans<br>Katie Wyatt |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i’w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(6)143 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) (Diwygio) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)121 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i’r Senedd yn unol â’r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)141 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)145 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(6)147 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(6)142 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.6 SL(6)144 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.7 SL(6)138 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 4.1 SL(6)146 – Gorchymyn Gweithrediadau Pysgota Môr (Dyfeisiau Monitro) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(6)130 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)131 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

### 5.3 SL(6)132 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

### 5.4 SL(6)133 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

### 5.5 SL(6)134 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

### 5.6 SL(6)137 – Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

### 5.7 SL(6)139 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 6.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) 2021 a Rheoliadau Deddf Ifori (Cychwyn Rhif 1) 2021

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2022

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Datganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Bil Pensiynau’r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Adroddiad drafft

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a chytunwyd i ystyried ymhellach a chytuno ar welliannau terfynol y tu allan i gyfarfod ffurfiol.

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Iechyd a Gofal

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Iechyd a Gofal, a chytunodd arno.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau, a chytunodd i drafod ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir). Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog, cyn ystyried ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 13 Cynllunio strategol a'r flaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â'i flaenraglen waith.

## 14 Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

Nododd y Pwyllgor y Nodyn Cyngor Cyfreithiol ar y Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol.